



Cardiff Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd  
Dydd Iau 23ain Tachwedd 2023 – 18:00  
Y Neuadd Fawr

### Agenda

- |            |     |  |       |
|------------|-----|--|-------|
|            | 1.  | Croeso   |       |
| Gorffennol | 2.  | Cofnodion CCB Rhagfyr 2022   | (T2)  |
|            | 3.  | Adroddiad Blynyddol 22/23  | (T8)  |
|            | 4.  | Adroddiad Ariannol 22/23   | (T9)  |
| Presennol  | 5.  | Ymlyniadau   | (T13) |
|            | 6.  | Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr   |       |
| Dyfodol    | 7.  | Strwythur Swyddogion Sabothol  | (T14) |
|            | 8.  | Cynigion a Gyflwynwyd  |       |
|            |     | A) Polisi sy'n Dirwyn I Ben  | (T18) |
|            |     | B) Cynigion a Gyflwynwyd   |       |
|            |     | i) Prifysgol Well & Mwy Cynhwysol  | (T19) |
|            |     | ii) Amser Gweithredu: Mynd i'r afael â Chamymddwyn Rhywiol ym Mhrifysgol Caerdydd                          | (T23) |
|            |     | iii) Cadoediad Nawr  | (T27) |
|            |     | iv) Yr Argyfwng Hinsawdd: System Fwyd Cynaliadwy sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ar gyfer Prifysgol Caerdydd | (T33) |
|            |     | v) Eirioli am Ddiddymu Ffioedd Dysgu   | (T39) |
|            | 9.  | Hysbysiad Etholiadau   | (T40) |
|            | 10. | Unrhyw Fusnes Arall  |       |



# EITEM DAU

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2021/22**  
**Cofnodion**  
**Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**  
**Dydd Iau 6ed Rhagfyr 2022, 18:00**  
**Lleoliad: Y Neuadd Fawr, Undeb Myfyrwyr Caerdydd**

1.	<b>Croeso</b>  Gwnaeth Rebecca Hardy (Cadeirydd) croesawu'r holl fynychwyr ac amlinellodd sut byddai busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal.
2.	<b>Cofnodion CCB 2021</b>  Cafodd cofnodion CCB 2021 eu cadarnhau fel cofnod gwir a chawson eu cymeradwyo.
3.	<b>Adroddiad Blynyddol 21/22</b>  Cyflwynodd Gina Dunn (Llywydd yr UM) Adroddiad Blynyddol yr UM 21/22.
4.	<b>Adroddiad Ariannol 21/22</b>  Cyflwynodd Daniel Palmer Adroddiad Ariannol 21/22 a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio y grŵp a'r Undeb.
5.	<b>Ymlyniadau</b>  Esboniodd RH ymlyniadau'r UM a rhoddwyd cyfle i aelodau trafod yr ymlyniadau.  Ymlyniad NUS - £37,500 Ymlyniad BUCS - £20.479.25  <i>Ymlyniad NUS wedi'i gymeradwyo.</i> <i>Ymlyniad BUCS wedi'i gymeradwyo.</i>



6.	<p><b>Cwestiynau Agored i'r Ymddiriedolwyr</b></p> <p>Cafodd cyfanswm o 9 cwestiwn eu gofyn am y pynciau canlynol – tai, cefnogaeth myfyrwyr trawsryweddol, newid i'r polisi amgylchiadau esgusodol, y cyflog byw gwirioneddol, cyllid BUCS, cynrychiolaeth myfyrwyr rhyngwladol, gweithgareddau lloio'r Undeb, y strwythur Swyddogion Sabothol newydd, a'r gost o gynnal CCB wedi'i ohirio.</p> <p>Gwnaeth y tîm Swyddogion Sabothol, fel aelodau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ateb y cwestiynau a ofynnwyd.</p> <p>Datganodd RH fod yr amser ar gyfer cwestiynau i'r ymddiriedolwyr ar ben, a gwahoddwyd mynychwyr i ofyn unrhyw gwestiynau pellach drwy typeform neu'n uniongyrchol i'r Swyddogion Sabothol.</p> <p>Gwnaeth Jack Morewood herio penderfyniad y cadeirydd i symud at eitem nesaf yr agenda drwy gynnig gweithdrefnol. Siaradodd JM o blaid y cynnig, siaradodd RH yn erbyn.</p> <p><b><i>Methodd y cynnig gweithdrefnol.</i></b></p>
7.	<p><b>Cynigion a Gyflwynwyd</b></p> <p>Nododd RH y cynigion oedd yn dirwyn i ben, cyn esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer trafodaethau.</p>
i.	<p><b>Mabwysiadu Safbwynt Swyddogol O Blaid yr Hawl i Ddewis</b></p> <p>Siaradodd Ashly Alava Garcia ar ran y cynigydd am hyd at 4 munud.</p> <p>Dechreuwyd trafodaeth o'r cynnig yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.</p> <p>Darparodd Ashly Alava Garcia casgliad o'r cynnig a gyflwynwyd.</p> <p>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.</p> <p><b><i>Cymeradwywyd y cynnig (Mabwysiadu Safbwynt Swyddogol O Blaid yr Hawl i Ddewis)</i></b></p> <p>Gofynnodd Zaid Manair i'r Cadeirydd ddarllen y datganiad o eglurhad canlynol. Darllenodd</p>



	<p>RH y datganiad o eglurhad canlynol:</p> <p>“Fel Mwslim nid oeddwn yn hoffi bod fy nghrefydd yn cael ei gysylltu gyda’r sylwadau cafodd eu gwneud. Gall unigolyn dewis faint maent yn credu mewn rhywbeth, ac mae Islam yn darparu rhyddid a gall unigolyn credu unrhyw beth fyfnant.”</p>
ii.	<p><b>Camau Er Budd yr Hinsawdd ac Atebolrwydd: Gwneud Sero Net yn Realiti</b></p> <p>Nododd RH fod diwygiad wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y cynnig yma a gafodd ei dderbyn gan y cynigydd.</p> <p>Siaradodd James Barber, y cynigydd, am hyd at 4 munud.</p> <p>Dechreuwyd trafodaeth o’r cynnig yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.</p> <p>Darparodd JB casgliad o’r cynnig a gyflwynwyd.</p> <p>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.</p> <p><b><i>Cymeradwywyd y cynnig (Camau er budd yr hinsawdd ac atebolrwydd: Gwneud sero net yn realiti)</i></b></p>
iii.	<p><b>Gweithredu Diwydiannol gan UCU</b></p> <p>Siaradodd Micaela Panes, y cynigydd, am hyd at 4 munud.</p> <p>Dechreuwyd trafodaeth o’r cynnig yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.</p> <p>Darparodd MP casgliad o’r cynnig a gyflwynwyd.</p> <p>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.</p> <p><b><i>Cymeradwywyd y cynnig (Gweithredu Diwydiannol gan UCU)</i></b></p>
iv.	<p><b>Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan Y Byd FIFA 2022</b></p>



	<p>Siaradodd Jazz Walsh, y cynigydd, am hyd at 4 munud.</p> <p>Dechreuwyd trafodaeth o'r cynnig yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.</p> <p>Darparodd JW casgliad o'r cynnig a gyflwynwyd.</p> <p>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.</p> <p><b><i>Cymeradwywyd y cynnig (Safbwynt Undeb Myfyrwyr Caerdydd ar Gwpan y Byd FIFA 2022)</i></b></p>
v.	<p><b>Cops Oddi ar y Campws</b></p> <p>Siaradodd Penny Dinh, y cynigydd, am hyd at 4 munud.</p> <p>--</p> <p>Cafodd diwygiad ei gyflwyno i'r cynnig. Esboniodd RH bod modd dod o hyd i'r diwygiad yng nghefn y pecyn agenda.</p> <p>Siaradodd Jack Marwood, fel cynigydd y diwygiad, am hyd at 2 munud.</p> <p>Rhoddwyd y cyfle i PD, fel cynigydd y cynnig gwreiddiol, siarad yn erbyn y diwygiad.</p> <p>Dechreuwyd trafodaeth o'r diwygiad yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.</p> <p>Darparodd JM crynodeb o'r diwygiad.</p> <p>Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y diwygiad.</p> <p>Penderfynodd RH fod y bleidlais yn rhy agos i'w alw a gofynnodd am gyfrif swyddogol.</p> <p>Gwnaeth y tîm CCB cynnal cyfrif swyddogol.</p> <p><b><i>Methodd y diwygiad a gynigwyd</i></b></p>



--

Cafodd cynnig gweithdrefnol ei gynnig i herio penderfyniad y Cadeirydd bod y diwygiad wedi methu.

Cafodd cynigydd y cynnig gweithdrefnol eu gwahodd i siarad am hyd at 2 munud.

Gwahoddwyd RH, fel y Cadeirydd, i siarad yn erbyn y cynnig gweithdrefnol.

Gwahoddodd Christopher Diamond, fel yr Is-gadeirydd, yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig gweithdrefnol.

***Methodd y cynnig gweithdrefnol.***

---

Dychwelodd y CCB at drafodaeth y cynnig gwreiddiol a gynigwyd.

--

Cafodd cynnig gweithdrefnol ei gynnig yn gofyn i'r cwestiwn nawr cael ei osod.

Gwahoddwyd Noah Russell, fel cynigydd y cynnig gweithdrefnol, i siarad am hyd at 2 munud.

Dechreuwyd trafodaeth o'r cynnig gweithdrefnol yn ôl gweithdrefnau trafodaeth y CCB.

Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig gweithdrefnol.

***Cymeradwywyd y cynnig gweithdrefnol.***

--

Gwahoddodd RH yr ystafell i bleidleisio ar y cynnig.

***Cymeradwywyd y cynnig (Cops Oddi ar y Campws)***



	<i>Daeth yr amser penodedig i ben felly ni chafodd y cynnig, Gyrfaoedd Di-Ffossil ei drafod – cafodd ei gyflwyno i'r cyfarfod Senedd Myfyrwyr nesaf yn lle.</i>
8.	<b>Hysbysiad Etholiadau</b> Gwnaeth RH tynnu sylw at yr Hysbysiad etholiadau o fewn y pecyn agenda, gan danlinellu bod enwebiadau etholiadau'r gwanwyn yn agor ar ddydd Llun 12fed Rhagfyr 2022.
9.	<b>Unrhyw Fusnes Arall</b> <i>Ni chafodd 'Unrhyw Fusnes Arall' ychwanegol ei gyflwyno a chafodd y cyfarfod ei gau.</i>



## EITEM TRI

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Angie Flores Acuña, yn cyflwyno negeseuon allweddol o'r adroddiad, gan dynnu sylw at ddatblygiadau, cyflawniadau a newidiadau sylweddol o fewn y sefydliad yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23.

Gall adroddiad effaith blynyddol 2022-23 cael ei ddarganfod yma:

<https://cardiffstudents.my.canva.site/impact23>





# EITEM PEDWAR

## Adroddiad Ariannol

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar yr elusen er mwyn Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen a'i is-gorff ar gyfer y flwyddyn orffennodd 31 Gorffennaf 2023. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol 1 Ionawr 2019).

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Amcanion yr elusen yw datblygiad addysg myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er lles cyhoeddus drwy:

- Hyrwyddo diddordebau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod eu cyfnod yn astudio a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr;
- Gweithredu fel y sianel cynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrrff allanol arall; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamddenol a fforymau ar gyfer trafod a dadlau er lles datblygiad personol myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion yr Undeb ar gyfer y flwyddyn a chynllunio ei weithgareddau, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol ac atodol perthnasol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn er budd y cyhoedd mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau ar gyfer defnydd ei aelodau ac mae'n gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod ei blaenoriaethau hirdymor yn unol â'i gynllun strategol, wedi'u hadolygu'n rheolaidd a'u seilio ar ymchwil cafodd ei gynnal â myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol yr Undeb, wedi'u mynegi mewn cerdyn sgorio cytbwys sy'n cael ei ddilyn gan ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Yn Rhagfyr 2021 lanswyd cynllun strategol presennol yr Undeb ar gyfer 2021 i 2025, o'r enw 'Calon Bywyd Myfyrwyr Caerdydd' a gall cael ei weld yma: <https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans/>



## ADOLYGIAD ARIANNOL

Daeth cyfanswm incwm y grŵp i £12,393,500 (2022: £12,318,155) gyda chyfanswm gwariant o £12,643,876 (2022: £11,064,178) yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth dirwyn i ben y ddarpariaeth pensiwn wedi'i ddisgowntio arwain at ddebyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol o £390,908 (2022: credyd o £398,444). Arweiniodd hyn at wariant net o £641,284 (2022: incwm net £1,652,421). Mae hyn yn cynnwys diffyg cyfyngedig o £541,390 a diffyg anghyfyngedig o £99,894.

Ar 31 Gorffennaf 2023, daeth cyfanswm cronfeydd rhydd wrth gefn (h.y. cyllid anghyfyngedig, ac eithrio cyllid dynodedig a heb ei gynrychioli gan asedau sefydlog a rhwymedigaethau cronfa bensiwn) y grŵp i £1,746,589 (2022: £1,534,034) ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon fod gan yr Undeb seiliau ariannol cadarn i allu parhau i weithredu a gweithio tuag at ei amcanion a gweithgareddau. Yn ogystal mae £43,608 (2022: £584,998) mewn cyllid nad sy'n rhydd.

O fewn is-gorff masnachu'r Undeb, Cardiff Union Service Limited, cynyddodd trosiant i £5,515,116 (2022: £5,237,048) gan arwain at elw gros o £2,517,348 (2022: £2,611,536). Cynyddodd costau gweinyddol i £4,808,546 (2022: £4,191,369) yn ystod y flwyddyn. Adroddodd yr is-gorff masnachu elw o £80,034 (2022: £1,088,843).

Yn ystod y flwyddyn cynyddodd rhwymedigaethau pensiwn y cwmni i £4,821,724 (2022: £4,757,753) o ganlyniad i'r gwerth net presennol wedi'i ddiweddarau a chyfraniadau diffyg y dyfodol gan gymryd i ystyriaeth taliadau diffyg y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn safle diffyg o ganlyniad i estyniad y cyfnod cynllun adferiad i 2037 o 2035. Mae'r diffyg yn codi o rwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr (SUSS) yn y dyfodol, a gafodd ei gau i groniadau yn y dyfodol yn 2011. Mae'r ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr yn fodlon fod ganddynt y cyllid i gwrdd â'r rhwymedigaethau i'r gyllideb wrth iddyn nhw fynd yn ddyledus dros oes y Cynllun Adfer Diffyg hyd at 2037.

## POLISI CRONFEYDD

Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd yn ôl anghenion y dyfodol, os na fydd cyllid ar gael o'r prif ffynonellau o gyllid. Mae polisi cronfeydd yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu er mwyn cael arian dros ben bob blwyddyn o'i gweithgareddau cyfunol i adeiladu cronfeydd anghyfyngedig rhydd wrth gefn o £1.6m. Mae cronfeydd rhydd wedi'u diffinio fel 'cronfeydd anghyfyngedig nad sydd wedi'u cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Ar 31 Gorffennaf 2023 cyfanswm cronfeydd rhydd yr elusen oedd £2,612,916 (2022: £2,403,768) ac roedd gan y grŵp sefyllfa gyfunol o £1,746,589 (2022: £1,534,034).



## BUSNES HYFYW

Ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol, mae gan yr ymddiriedolwyr disgwyliad rhesymol fod gan yr Undeb digon o adnoddau i barhau gyda'i fodolaeth weithdrefnol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm yma maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes o baratoi'r datganiadau ariannol.

### CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

#### CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES (INCORPORATING AN INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT) FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2023

	Notes	Unrestricted fund £	Restricted funds £	2023 Total funds £	2022 Total Funds £
<b>INCOME AND ENDOWMENTS FROM</b>					
Donations and legacies	3	3,327,789	53,095	3,380,884	4,460,391
Charitable activities	6	3,482,313	-	3,482,313	2,619,808
Other trading activities	4	5,515,116	-	5,515,116	5,237,048
Investment income	5	15,187	-	15,187	363
Other income		-	-	-	545
<b>Total</b>		<b>12,340,405</b>	<b>53,095</b>	<b>12,393,500</b>	<b>12,318,155</b>
<b>EXPENDITURE ON</b>					
Raising funds	8	7,808,665	4,095	7,812,760	6,821,814
Charitable activities	9	4,775,936	55,180	4,831,116	4,242,364
<b>Total</b>		<b>12,584,601</b>	<b>59,275</b>	<b>12,643,876</b>	<b>11,064,178</b>
<b>NET INCOME / (EXPENDITURE)</b>		<b>(244,196)</b>	<b>(6,180)</b>	<b>(250,376)</b>	<b>1,253,977</b>
Unwinding of discounted pension provision		(390,908)	-	(390,908)	398,444
<b>Net income/(expenditure) for the year</b>		<b>(635,104)</b>	<b>(6,180)</b>	<b>(641,284)</b>	<b>1,652,421</b>
<b>Transfer between funds</b>		<b>535,210</b>	<b>(535,210)</b>	<b>-</b>	<b>-</b>
		(99,894)	(541,390)	(641,284)	1,652,421
<b>RECONCILIATION OF FUNDS</b>					
<b>Total funds brought forward</b>		<b>9,277,248</b>	<b>584,998</b>	<b>9,862,246</b>	<b>8,209,825</b>
<b>TOTAL FUNDS CARRIED FORWARD</b>		<b>9,177,354</b>	<b>43,608</b>	<b>9,220,962</b>	<b>9,862,246</b>



CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

CONSOLIDATED AND CHARITY BALANCE SHEET  
31 JULY 2023

	Notes	Group		Charity	
		2023 £	2022 £	2023 £	2022 £
<b>FIXED ASSETS</b>					
Tangible assets	15	12,252,488	12,155,967	14,277	29,351
Investments	16	73,563	73,563	2,000	2,000
		<u>12,326,051</u>	<u>12,229,530</u>	<u>16,277</u>	<u>31,351</u>
<b>CURRENT ASSETS</b>					
Stocks	17	136,326	108,518	-	-
Debtors: amounts falling due within one year	18	1,035,164	966,428	1,534,727	963,209
Cash at bank		<u>2,591,521</u>	<u>3,480,876</u>	<u>2,122,396</u>	<u>3,094,600</u>
		3,763,011	4,555,822	3,657,123	4,057,809
<b>CREDITORS</b>					
Amounts falling due within one year	19	(2,046,376)	(2,023,686)	(1,002,598)	(697,040)
		<u>1,716,635</u>	<u>2,532,136</u>	<u>2,654,525</u>	<u>3,360,769</u>
<b>NET CURRENT ASSETS</b>					
		<u>1,716,635</u>	<u>2,532,136</u>	<u>2,654,525</u>	<u>3,360,769</u>
<b>TOTAL ASSETS LESS CURRENT LIABILITIES</b>		14,042,686	14,761,666	2,670,802	3,392,120
<b>CREDITORS</b>					
Amounts falling due after more than one year	20	-	(141,667)	-	-
<b>PENSION LIABILITY</b>	23	(4,821,724)	(4,757,753)	-	-
		<u>9,220,962</u>	<u>9,862,246</u>	<u>2,670,802</u>	<u>3,392,120</u>
<b>NET ASSETS</b>					
		<u>9,220,962</u>	<u>9,862,246</u>	<u>2,670,802</u>	<u>3,392,120</u>
<b>FUNDS</b>	25				
Revaluation reserve		9,183,829	9,786,047	-	-
Pension reserve		(4,821,724)	(4,757,753)	-	-
Unrestricted funds – Designated		3,068,660	2,714,920	14,277	374,351
Unrestricted funds - General		1,746,589	1,534,034	2,612,917	2,403,768
Restricted funds		<u>43,608</u>	<u>584,998</u>	<u>43,608</u>	<u>614,001</u>
<b>TOTAL FUNDS</b>		<u>9,220,962</u>	<u>9,862,246</u>	<u>2,670,802</u>	<u>3,392,120</u>



# EITEM PUMP

## Ymlyniadau

**Ffi Ymlynu NUS:** £37,500.00

**Ffi Ymlynu BUCS:** £22,913.00

- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig wedi'u hymlynu ag amrywiaeth o gyrrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon a diwylliannol.



# EITEM SAITH

## STRWYTHUR SWYDDOGION SABOTHOL

Mae'r Strwythur Swyddogion Sabothol yn cael ei chynnig i'r CCB ar gyfer ethol yn Etholiadau'r Gwanwyn 2024.

- a. Llywydd Undeb y Myfyrwyr
- b. Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau
- c. Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- d. Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig (*Addysg & Lles*)
- e. Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig (*Addysg & Lles*)
- f. Is-lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan (*Addysg & Lles*)
- g. Is-lywydd y Gymraeg\*

Os nad yw'r CCB yn cymeradwyo newid i'r strwythur Swyddogion Sabothol bydd Etholiadau'r Gwanwyn yn ethol y rolau a theitlau Swyddogion Sabothol sydd eisoes yn bodoli.

*\*Er mwyn gwneud newidiadau i'r Is-lywydd Iaith Cymuned a Diwylliant Cymru mae angen newid i is-ddeddfau'r Undeb wedi'i gymeradwyo gan y Senedd Myfyrwyr a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Bydd y teitl wedi'i gymeradwyo a amlinellir ym 'mhwynt g' ond yn cael ei fabwysiadu os yw'r fath cymeradwyaeth yn cael ei dderbyn. Os nad yw'r Senedd Myfyrwyr a/neu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r newidiadau hanfodol i'r is-ddeddfau bydd y teitl Is-lywydd Iaith, Cymuned a Diwylliant Cymru yn parhau.*



# DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I'R STRWYTHUR SWYDDOGION SABOTHOL

## Diwygiad 1: CYFLWYNO IS-LYWYDD MYFYRWYR RHYNGWLADOL

*Cynigywr: Nathan Mintz (Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol) a Tom Spare*

### I amnewid

d. Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig (*Addysg a Lles*)

### am

d. Is-lywydd Myfyrwyr Rhyngwladol (*Addysg a Lles*)

### Testun Cefnogol

Ar hyn o bryd mae 1 o bob 4 myfyriwr (dros 9000) wedi'u hystyried yn fyfyrwyr rhyngwladol ac maent yn cael eu cynrychioli gan Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol gwirfoddol.

Yn wahanol i'w cyd-fyfyrwyr o'r DU, mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu diwylliant newydd, ffioedd dysgu uchel, costau visa a gofal iechyd ychwanegol, rheolau llym mewnfudo a chyfyngiadau gweithio.

Mae'r Brifysgol yn gwneud colled gyda myfyrwyr cartref (DU) ac maent wedi cynyddu recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i wrthsefyll hyn. Golyga hyn fod mwy o'r profiad myfyriwr yn cael ei ariannu gan ffioedd dysgu rhyngwladol.

Gyda nifer cynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol mae cynrychiolaeth yn bwysicach nac erioed, ond nid yw democratiaeth myfyrwyr wedi symud i adlewyrchu'r newid mewn demograffig.

Mae'r rôl yma'n cymryd cyfrifoldeb am fyfyrwyr rhyngwladol, creu digwyddiadau ac adeiladu cymuned myfyrwyr rhyngwladol ehangach.

Mae hawl gan Undeb y Myfyrwyr cael 7 Swyddog Sabothol taledig llawn amser. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys Llywydd, Is-lywydd Chwaraeon, Cymdeithasau, Israddedigion, Ôl-raddedigion, Parc y Mynydd Bychan, ac Iaith, Cymuned a Diwylliant Cymru.

Fel ymddiriedolwyr ac arweinwyr Undeb y Myfyrwyr mae gan swyddogion llawn amser yr adnoddau a chefnogaeth staff i ymgychu am faterion myfyrwyr allweddol, creu polisi i wella profiad myfyrwyr, rhedeg digwyddiadau ac effeithio ar benderfyniadau yn y Brifysgol.



## DIWYGIAD 2: NEWID TEITL ROLAU O IS-LYWYDDION I SWYDDOGION

Cynigydd: Jack Morewood

### I amnewid

- a. Llywydd Undeb y Myfyrwyr
- b. Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau
- c. Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- d. Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig (*Addysg & Lles*)
- e. Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig (*Addysg & Lles*)
- f. Is-lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan (*Addysg & Lles*)
- g. Is-lywydd y Gymraeg\*

### am

- a. Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr\*\*
- b. Ymddiriedolwr Sabothol, Swyddog Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau
- c. Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- d. Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Myfyrwyr Israddedig (*Addysg a Lles*)
- e. Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Myfyrwyr Ôl-raddedig (*Addysg & Lles*)
- f. Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Campws Parc y Mynydd Bychan (*Addysg a Lles*)
- g. Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog y Gymraeg

*Nodwch: Yn yr achos bod y CCB yn cymeradwyo creu rôl Is-lywydd Myfyrwyr Rhyngwladol (Addysg a Lles) (diwygiad 1), dylai rôl d cael ei alw'n Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol (Addysg a Lles).*

\*\* Er mwyn gwneud newidiadau i'r teitl Llywydd rhaid cael newid wedi'i gymeradwyo i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Undeb y Myfyrwyr. Bydd yn bosib newid teitl y Llywydd fel rhan o adolygiad llywodraethu Undeb y Myfyrwyr blwyddyn nesaf os dymuna myfyrwyr.

### Testun Cefnogol

Amcan y newidiadau yma yw darparu eglurder ynglŷn â rôl Swyddogion Sabothol. Nid yw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn weithrediaeth arlywyddol lle bod pwerau gweithredol yn perthyn i unrhyw un Swyddog Sabothol. Nid oes gan unrhyw unigolyn pwerau fetu. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o'u pŵer yn dod o'u haelodaeth ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr fel corff gwneud penderfyniadau uchaf yr undeb, ac mae wedi'i rhannu. Mae defnydd termau arlywyddol ac eithrio eu statws ymddiriedolwr sabothol yn y teitlau'n cam-gynrychioli hyn.





Bydd y newidiadau yma'n darparu eglurder angenrheidiol bod y rolau yma yn rhai cydweithiol wrth i bobl sefyll mewn etholiad a bod manifestos a pholisïau yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Ymddiriedolwyr. Bydd hyn hefyd yn galluogi myfyrwyr fod yn fwy gwybodus am strwythur gwneud penderfyniadau'r undeb os hoffant wneud newidiadau yn y dyfodol.

Nid yw'r newid yma'n newid yr hyn sy'n rhan o rolau Swyddogion Sabothol na'u pwerau, dim ond eu teitlau.

These changes do not change the scope of the Sabbatical Officer roles nor their powers, only their titles.



# EITEM WYTH

## A) Cynigion sy'n Dirwyn I Ben

Bydd y cynigion canlynol cafodd eu cymeradwyo mewn CCB yn dirwyn i ben cyn y CCB nesaf yn 2024. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno er gwybodaeth yn unig. Cafodd pob cynnig ei gymeradwyo yn CCB Ebrill 2021.

- *Ymrwymiad I Wella Diogelwch Myfyrwyr*

Gweler yr adran yma o'r wefan ar gyfer pob polisi - <https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/>



## B) Cynigion a Gyflwynwyd

### CYNNIG UN

#### PRIFYSGOL WELL & MWY CYNHWYSOL

*Cynigwyr: Rasheed Shehadeh (Llywydd ISOC) a Madison Hutchinson (IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli)*

#### Nodiadau CCB

1. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi mabwysiadu diffiniad llawn Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust (CRhCH) o wrthsemitiaeth o'r blaen.
2. Mae gan Brifysgol Caerdydd cymuned amrywiol o fyfyrwyr sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig, ieithyddol a chrefyddol.
3. Mae gan Brifysgol Caerdydd nifer o ystafelloedd tawel ar gampysau Cathays a Pharc y Mynydd Bychan. Ar hyn o bryd maent wedi eu sefydlu ar gyfer gweddïo unigol, myfyrdod, neu amser tawel.
4. Mae gan Undeb Myfyrwyr Caerdydd ystafell weddi aml-ffydd bwrpasol, ar gampws Cathays, sy'n cynnwys cyfleusterau ymolchi preifat.
5. Mae yna amryw o gymdeithasau diwylliannol, rhyngwladol a chrefyddol yn Undeb y Myfyrwyr sy'n cynrychioli gwahanol gredoau a diwylliannau, y gall myfyrwyr ymuno â.
6. Mae gohebiaeth bresennol y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ynglŷn â gwyliau crefyddol a diwylliannol tu allan i Gristnogaeth yn annigonol. Yn ogystal, nid yw'r digwyddiadau yma'n cael eu hystyried wrth gynllunio a threfnu gweithgareddau megis darlithfeydd, arholiadau, Wythnos y Glas ac yn y blaen.

#### Cred y CCB

1. Mae'n gyfrifoldeb ar Undeb Myfyrwyr Caerdydd i gynrychioli safbwynt myfyrwyr Mwslimaidd ac Iddewig mewn modd rhagweithiol a chywir, a sicrhau bod yr amgylchedd lle maent yn dysgu, astudio, ymchwilio a byw yn ddiogel a'n rhydd o wahaniaethu.
2. Nid yw cyfathrebu presennol y Brifysgol ynglŷn â gwyliau crefyddol yn ddigonol. Dylai'r Brifysgol addysgu ynghyd â dathlu.
3. Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn credu nad oes digon o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol.



## Penderfyna'r CCB

1. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd mabwysiadu diffiniad 'Muslim Engagement and Development' (MEND) o Islamoffobia<sup>1</sup> i well diogelu a chefnogi cymuned Prifysgol Caerdydd.
2. Dylai Undeb y Myfyrwyr lobio Prifysgol Caerdydd i sicrhau fod gan bob un o adeiladau'r Brifysgol ystafelloedd aml-ffydd bwrpasol gyda chyfleusterau ymolchi preifat wedi'u cynnwys. Gydag angen pwyslais penodol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan.
3. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd cyflwyno opsiynau bwyd Halal a Kosher yn Undeb y Myfyrwyr. Dylid hefyd lobio Prifysgol Caerdydd i gyflwyno opsiynau Halal a Kosher ar draws y mannau bwyd ar gampws. Gydag angen pwyslais penodol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan.
4. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynglŷn â gwahanol ddiwyddiadau/ddathliadau crefyddol e.e. Ramadan a Hannukah. Gyda'r bwriad o addysgu myfyrwyr am y materion yma.
5. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd lobio Prifysgol Caerdydd i'w wneud yn haws cael adnoddau addysgol yn ystod adegau crefyddol ar y fewnrwyd myfyrwyr.
6. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd gweithio i gyflwyno hyfforddiant pwyllgor i glybiau chwaraeon a chymdeithasau ar ffydd, digwyddiadau crefyddol a gwahaniaethu.
7. Bydd Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn ymroi i gynnal ymgyngoriadau gyda'i aelodau o gefndiroedd crefyddol wedi'u hymyleiddio i wella profiad y myfyrwyr yma. Gallai materion penodol ar gyfer eu hystyried yn yr ymgyngoriadau yma gynnwys: pwysigrwydd alcohol mewn digwyddiadau myfyrwyr a gohebiaeth bywyd myfyrwyr, mynediad i gymorth am wahaniaethu, ayyb.

### Atodiad 1

#### **Diffiniad Gweithredol MEND o Islamoffobia:**

Mae Islamoffobia (yn unol â gwrthsemitiaeth, hiliaeth, homoffobia, rhywiaeth a mathau eraill o gasineb a gwahaniaethu) yn offeryn sy'n cael ei ddefnyddio i ennill a chynnal pŵer. Mae wedi'i gysylltu'n annatod â ffactorau economaidd-gymdeithasol, ac yn aml mae'n adlewyrchu'r anghydraddoldebau sylfaenol o fewn cymdeithas. Mae Islamoffobia yn rhagfarn, gwrthwynebiad, gelyniaeth neu gasineb tuag at Fwslimiaid ac mae'n cynnwys unrhyw wahaniaethu, allgau, cyfyngiad neu ffafiaeth yn erbyn Mwslimiaid gyda'r pwrpas neu'r effaith o ddiddymu neu amharchu cydnabyddiaeth, mwynhad neu ymarfer, ar sail gyfartal, hawliau dynol a rhyddid sylfaenol ym meysydd gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu unrhyw faes arall bywyd cyhoeddus.

---

<sup>1</sup> <https://www.mend.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/MEND-Approaching-a-definition-of-Islamophobia-More-than-words-Executive-Summary.pdf>



Yn unol â hyn dangosir Islamoffobia mewn, neu caiff ei fynegi trwy, lleferydd, ysgrifen, ymddygiad, strwythurau, polisïau, ddeddfwriaethau neu weithgareddau sy'n gweithio i reoli, rheoleiddio neu eithrio cyfranogiad Mwslimaidd mewn bywyd cymdeithasol, dinesig, economaidd a gwleidyddol, neu sy'n ymgorffori casineb, ystrydebu, cam-drin neu drais wedi'i gyfeirio at Fwslimiaid. Gan ystyried y cyd-destun cyfan, gall esiamplau o Islamoffobia ym mywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle a'r maes crefyddol gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Achosi, galw am, cynorthwyo neu gyfiawnhau lladd neu anafu Mwslimiaid, neu rheiny sy'n cael eu hystyried yn Fwslimiaid oherwydd eu hunaniaeth grefyddol.
- Achosi, galw am, cynorthwyo neu gyfiawnhau lladd neu anafu unigolion o ganlyniad i'w cysylltiad honedig neu wirioneddol â neu gefnogaeth o Fwslimiaid.
- Cyhuddo Mwslimiaid o gynllwynio i niweidio dynoliaeth a/neu ffordd o fwy gorllewinol neu feio Mwslimiaid am broblemau economaidd a chymdeithasol cymdeithas.
- Gwneud cyhuddiadau anwir, dad-ddyneiddio neu ystrydebol am Fwslimiaid.
- Gwrthrycholi neu gyffredinolli Mwslimiaid fel gwahanol, egstotig neu isddatblygedig, neu awgrymu eu bod tu allan i, yn wahanol o neu'n anghydnaws â chymdeithas a hunaniaeth Brydeinig.
- Arddel y gred fod Mwslimiaid yn israddol i grwpiau cymdeithasol a crefyddol eraill.
- Cyhuddo Mwslimiaid fel grŵp o fod yn gyfrifol am weithred wirioneddol neu ddychmygol gan un person Mwslimaidd, grŵp penodol neu genedl, neu hyd yn oed gweithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad sy'n Fwslimaidd.
- Gosod safonau dwbl drwy fynnu bod Mwslimiaid yn ymddwyn mewn ffordd na ddisgwyllir neu a fynnir gan unrhyw grŵp cymdeithasol, crefyddol neu ethnig arall.
- Cymryd ymagwedd ethnocentrig i driniaeth Mwslimiaid (barnu diwylliant arall yn ôl gwerthoedd a safonau eich diwylliant eich hun yn unig). Er enghraifft, gwerthuso dewis menywod Mwslimaidd o ddillad yn unol â disgwyliadau'r siaradwr yn unig, heb gyfeirio at arferion diwylliannol personol a gwerthoedd y menywod dan sylw.
- Gweithredoedd ymosodol lle mae'r targedau, p'un ai'n bobl neu'n eiddo – megis adeiladau, ysgolion, addoldai a mynwentydd – wedi'u dewis am eu bod, neu maent wedi'u hystyried yn Fwslimiaid neu wedi'u cysylltu â Mwslimiaid.

Tra nad yw beimiadaeth o Islam o fewn sefyllfaoedd dilys dadl a lleferydd rhydd yn Islamoffobia yn ei hun, gall droi'n Islamoffobia os yw'r dadleuon a gyflwynwyd yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau, ystrydebu, dad-ddyneiddio, neu allgau Mwslimiaid. Er enghraifft, drwy feimiadaeth crefydd i ddadlau fod Mwslimiaid fel grŵp yn ddrwg neu'n dreisgar.



# DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I GYNNIG 1

## DIWYGIAD 1

*Cynigydd: Penny Din*

### Amnewid

Cred 1. Mae'n gyfrifoldeb ar Undeb Myfyrwyr Caerdydd i gynrychioli safbwynt myfyrwyr Mwslimaidd ac Iddewig mewn modd rhagweithiol a chywir, a sicrhau bod yr amgylchedd lle maent yn dysgu, astudio, ymchwilio a byw yn ddiogel a'n rhydd o wahaniaethu.

Cred 2. Nid yw cyfathrebu presennol y Brifysgol ynglŷn â gwyliau crefyddol yn ddigonol. Dylai'r Brifysgol addysgu ynghyd â dathlu.

Cred 3. Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn credu nad oes digon o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol.

A

Penderfyniad 4. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynglŷn â gwahanol ddigwyddiadau/ddathliadau crefyddol e.e. Ramadan a Hannukah. Gyda'r bwriad o addysgu myfyrwyr am y materion yma.

### Am

Cred 1. Mae'n gyfrifoldeb ar Undeb Myfyrwyr Caerdydd i gynrychioli safbwynt myfyrwyr o gefndiroedd crefyddol lleiafrifol ac wedi'u hymylu mewn modd rhagweithiol a chywir a sicrhau bod yr amgylchedd lle maent yn dysgu, astudio, ymchwilio a byw yn ddiogel a'n rhydd o wahaniaethu.

Cred 2. Dylai'r brifysgol addysgu ei myfyrwyr am amrywiaeth crefyddol a diwylliannol o amgylch y byd ynghyd â hwyluso dathlu gwyliau crefyddol a diwylliannol o fewn ei chymuned.

Cred 3. Mae yna lawer mwy sydd angen ei wneud i ddarparu ar gyfer myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol.

A

Penderfyniad 4. Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynglŷn â gwahanol ddigwyddiadau/ddathliadau crefyddol a diwylliannol e.e. Ramadan a Hannukah, gyda'r bwriad o addysgu myfyrwyr am y materion yma.



## CYNNIG DAU

# AMSER GWEITHREDU: MYND I'R AFAEL Â CHAMYMDDWYN RHYWIOL YM MHRIFYSGOL CAERDYDD

*Cynigwyr: Rebecca Rumsey, Bethia Tucker a Ishani Patwal*

### Nodiadau CCB

1. Mae yna bellach cynsail cyfreithiol lleol bod gan brifysgolion ddyletswydd gofal tuag at fyfyrwyr ynghylch camymddwyn rhywiol. [1]
2. Mae Feder a McCamish v Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn sefydlu bod awdurdodau cyhoeddus yn gallu cael eu herlyn os maent yn esgeulus wrth fethu ag atal niwed pellach. [2]
3. Mae Prifysgol Caerdydd wedi methu blwyddyn ar ôl flwyddyn i ddarparu canlyniadau teg i achosion o aflonyddu rhywiol, gan gynnwys methu cosbi troseddwy. Mae hyn yn amlwg drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan Voice.Wales a ddangosodd fod 218 adroddiad o aflonyddu yn 2019-20 yn unig, gydag ond 9 o'r adroddiadau yma'n arwain at unrhyw fath o gasgliad, a dim un yn arwain at ddiarddel parhaol. [3]
4. Nid oes gan Brifysgol Caerdydd diffiniad sefydledig am ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol na thrais rhywiol, a'r unig ddiffiniad gall cael ei ddarganfod yw un am gamymddwyn rhywiol ym mholisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio Prifysgol Caerdydd. [4]
5. Mae Prifysgol Caerdydd yn cyfyngu ar lwyddiant academaidd myfyrwyr drwy beidio â chael ymagwedd gadarn a chlir am sut maent yn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol. Mae ymchwil yn awgrymu bod 25% o ddiodefwyr o fewn prifysgolion yn y DU wedi colli darlithfeydd, tiwtorialau, neu hyd yn oed wedi gollwng modiwl oherwydd bod eu tramgwyddwr yn bresennol yn y lleoliadau yma.[5]
6. Mae tanadrodd camdriniaeth a thrais domestig yn gyffredin ac mae'n bwysig bod y Brifysgol yn chwalu'r rhwystrau i wneud adroddiadau a bod myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gallu adrodd achosion o gam-drin, aflonyddu a thrais [6]. O fewn Prifysgol Caerdydd rydym yn gweld bod llawer o fyfyrwyr ddim yn adrodd achosion fel hyn. Gwnaeth ymchwiliad gan Cardiff Tab yn 2021 ddarganfod fod 63% o ymatebwyr wedi profi ymosodiad rhywiol. O'r 63%, dim ond 9% o ddiodefwyr adroddodd eu hymosodiad, ac o rheiny gwnaeth adroddiad roedd 70.5% yn anhapus gyda chanlyniad eu hymchwiliad.
7. Mae Prifysgol Caerdydd hefyd wedi methu diogelu myfyrwyr rhag dod yn ddiodefwyr o'r anghydbwysedd pŵer mewn perthnasoedd myfyrwyr a staff [7]. Mae hyn yn amlwg mewn achosion o feithrin perthynas amhriodol honedig, a gafodd unigolyn ei arestio amdano'n ddiweddarach. [8]
8. Yn ôl 4.1 o Nodyn Briffio'r Tîm Ymateb i Ddatgeliadau (TYDd), mae'r TYDd wedi bod yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o'u tîm a'r gwasanaethau maent yn darparu. Nid yw hyn yn gwneud digon i annog datgeliadau.



9. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd wedi methu cadw tudalen wedi'i ddiweddarau ar bolisi camymddwyn rhywiol. Mae'r polisi dim goddefgarwch o aflonyddu rhywiol heb gael ei ddiweddarau ers 2015, bron deg mlynedd yn ôl. [9]

- 1) <https://wonkhe.com/wp-content/wonkhe-uploads/2023/10/5-10-23-Feder-and-McCamish-v-RWCMD-FINAL.pdf>
- 2) <https://wonkhe.com/blogs/judge-rules-universities-have-a-duty-of-care-to-students/> Blake, Dickinson Oct 2023
- 3) <https://www.voice.wales/cardiff-uni-hundreds-of-sexual-misconduct-accusations-in-just-three-years-2/#:~:text=The%202019%2D20%20academic%20year,students%20filing%20accusations%20of%20rape> 4
- 4) [https://www.cardiff.ac.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0003/1510914/Dignity-at-Work-and-Study-Policy-2019-Welsh-version.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0003/1510914/Dignity-at-Work-and-Study-Policy-2019-Welsh-version.pdf)
- 5) <https://www.empoweredcampus.co.uk/universities-1>
- 6) <https://www.gov.uk/government/consultations/domestic-abuse-act-statutory-guidance/domestic-abuse-draft-statutory-guidance-framework#chapter-4--agency-response-to-domestic-abuse>
- 7) <https://cardiffstudentmedia.co.uk/gairrhydd/will-cardiff-university-ban-staff-student-relationships/#comments>
- 8) <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/lecturer-no-longer-employed-university-26747835>
- 9) <https://www.cardiffstudents.com/canttouchthis/our-policy/>

## Cred y CCB

1. Bod gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr dyletswydd gyfreithiol i ofalu am fyfyrwyr a'u diogelu rhag unrhyw fath o gamymddwyn rhywiol, fel y'i sefydlwyd gan achos Feder a McCamish.
2. Dylai fod gan bob sefydliad yn ymwneud â bywyd myfyrwyr e.e. llety, cymdeithasau, yr Undeb Athletau, ysgolion academaidd, camau clir ar gyfer yr ymchwiliadau yma, a dylent amddiffyn dioddefwyr yn ystod y broses.
3. Mae cael diffiniadau cadarn o ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol, trais a chamymddwyn rhywiol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thrais rhywiol ar gampws.
4. Dylai ymchwiliadau'r Brifysgol cynyddu'r nifer o ganlyniadau teg, gyda chosbau yn gymesur i'r drosedd. Dylai'r ymchwiliadau yma fod yn ddewis ymarferol arall i ymchwiliadau troseddol gan ystyried gymaint o effaith y gall gyfranogiad heddlu a barnwrol ei gael ar ddiodefwyr.
5. Dylai'r Brifysgol allu diarddel unigolion am dorri polisi ymddygiad, hyd yn oed os nad yw unigolyn yn cael eu canfod yn euog yn y llys. Os yw cwyn yn cael ei gadarnhau, dylai'r tramgwyddwr wynebu cosb briodol.
6. Dylai'r Brifysgol weithredu fel byffer rhwng ymchwiliadau troseddol a'r diodefwyr er mwyn sicrhau fod goroeswyr wedi'u diogelu'n briodol trwy gydol y broses ymchwilio, ac yn ystod erlyniad posibl. Bydd cynnydd mewn canlyniadau teg yn annog eraill i adrodd camymddwyn





- rhywiol a bydd yn gweithio i atal camymddwyn yn y dyfodol.
7. Mae perthnasoedd rhwng aelodau o staff y brifysgol a myfyrwyr yn peri risg uchel o gamddefnydd pŵer.
  8. Mae goroeswyr trais rhywiol yn haeddu'r polisiau a phrosesau mwyaf tosturiol, cadarn, ac addas i'r diben. Mae hyn yn gofyn am adolygiadau rheolaidd o bolisiau a strwythurau fel y TYDd.
  9. Mae 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022-2026' Llywodraeth Cymru wedi gosod allan cynllun clir ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, a dylai Prifysgol Caerdydd glynu at y cyngor polisi yma.

### **Penderfyna'r CCB**

1. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr cefnogi cynlluniau i atal trais rhywiol rhag digwydd ar gampws trwy weithio gyda sefydliadau megis 'Empowered Campus' i newid y diwylliant sydd wedi galluogi trais rhywiol ar sail rhywedd i barhau ar draws campws.
2. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr cynnal ymgynghoriadau trylwyr a chynhwysol gyda myfyrwyr am beth hoffant weld gan Undeb y Myfyrwyr o ran hyrwyddo campws diogel i bawb. Rhaid i'r ymgynghoriadau yma fod yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan sicrhau bod bob myfyriwr yn gallu cymryd rhan a dweud eu dweud am y mater yma. Dylent hefyd ymrwmo i drefnu a hyrwyddo gweithdai addysgol ar bynciau megis cydsynio, deall mathau o gam-drin, a thrais wedi'i seilio ar rhywedd.
3. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr ymroi i gasglu a monitro data am gyffredinolrwydd camymddwyn rhywiol, gan ddilyn ymlaen o ganfyddiadau erthygl y Tab a nodwyd uchod.
4. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr ymroi i lobio Prifysgol Caerdydd i:
  - a. Mabwysiadu diffiniad blaengar o ymosodiad rhywiol trwy ymgynghoriad blynyddol gyda myfyrwyr a chan gyfeirio at Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
  - b. Gwneud diffiniadau wedi'u diweddarau yn hawdd i'w canfod ar y fewnrwyd a sims.
  - c. Diwygio contractau llety i gael gwared ar dramgwyddwyr o neuaddau preswyl y brifysgol. Dylai'r polisi yma alinio diddordebau'r dioddefwr â phenderfyniadau polisiau'r brifysgol er mwyn sicrhau addasiad llwyddiannus i gontractau llety. O fewn y diwygiad yma dylid rhoi'r opsiwn i ddioddefwyr symud llety tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal.
  - d. Mabwysiadu a gorfodi polisi clir sy'n gwahardd staff Prifysgol rhag dechrau neu ddatblygu perthnasau agos neu glos gyda myfyrwyr lle bod gan yr aelod o staff safle o awdurdod neu gyfrifoldeb dros y myfyriwr yna. Lle bod perthynas personol ac academiaidd yn bodoli, rhaid i'r aelod o staff rhoi gwybod i'r Brifysgol, fel gall trefniadau amgen cael eu gwneud i atal unrhyw cam-drin posib o awdurdod. Rhaid i Undeb y Myfyrwyr hefyd lobio am ffordd ddiogel ac effeithiol i fyfyrwyr mewn / myfyrwyr sy'n ymwybodol o berthynas staff-myfyriwr amhriodol ei ddatgelu / adrodd heb ofni'r canlyniadau.
    - i. . Bydd Undeb y Myfyrwyr a grwpiau myfyrwyr yn gweithio gyda'r Brifysgol i greu canllawiau clir gall cael eu hadolygu'n gyson a bydd ar gael yn gyhoeddus. Mae sefyllfaoedd lle bod gan aelod o staff cyfrifoldeb am fyfyriwr yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, lle bod:



1. unrhyw berthynas oruchwylio neu addysgu uniongyrchol (er enghraifft rhwng myfyriwr ôl-raddedig a'u goruchwyliwr, tiwtor a'u disgybl);
  2. gan aelod o staff cyfrifoldeb uniongyrchol neu anuniongyrchol am astudiaethau academaidd myfyriwr (er enghraifft, drwy asesu gwaith myfyriwr);
  3. gan aelod o staff cyfrifoldeb uniongyrchol neu anuniongyrchol am les personol myfyriwr (er enghraifft darparu gwasanaethau lles neu weithredu fel mentor neu gynghorydd coleg);
  4. gan aelod o staff rôl mentora neu gyfrifoldeb gweinyddol am fyfyriwr; neu
  5. aelod o staff sy'n rhan o dderbyn neu ddewis ymgeiswyr neu ddeiliaid cynnig [Yn seiliedig ar Bolisi Perthnasau Myfyrrwyr/Staff Prifysgol Rhydychen 2023].
- e. Cynnal adolygiad wedi'i arwain gan fyfyrwyr i mewn i'r Tîm Ymateb i Ddatgeliadau gan ddilyn ymlaen o'r syniadau a gyflwynwyd gan Emily Carr, Swyddog Menywod yr UM (2022/23)
- f. Sicrhau fod achosion o aflonyddu a gwahaniaethu wedi'i ymchwilio'n drylwyr a sicrhau fod canlyniadau yn cynnwys euogfarnau troseddol a diarddel parhaol.



## CYNNIG TRI

### CADOEDIAD NAWR

Cynigwyr: Penny Dinh a Bethany Thomas

#### Ymwadiad

- *Nid yw'r cynnig yma'n gysylltiedig ag unrhyw gymdeithas oherwydd ei natur, y gwrthdaro presennol, a'n cred y byddai'n anghywir i'w ymlynu ag unrhyw gymdeithas ar gyfer unrhyw fudd gwleidyddol, crefyddol neu gymdeithasol i unigolyn neu gymdeithas. Gall unigolion sy'n siarad o blaid neu yn erbyn y cynnig yma gysylltu eu barn gyda chymdeithas os yw'n adlewyrchu aelodaeth ehangach y gymdeithas honno yn gywir. Yn ogystal, cafodd y cynnig yma ei ddrafftio gyda chymorth grŵp amrywiol o unigolion yn cynrychioli amrywiaeth o ethnigrwydd, cenhedloedd, crefyddau, ymlyniadau gwleidyddol, neu gefndiroedd eraill o fewn y Brifysgol i sicrhau tegwch a chywirdeb,*
- *Mae gan fyfyrwyr y rhyddid i lunio eu barn eu hun am y gwrthdaro oherwydd efallai bod ganddynt aelodau teulu yn Palesteina a/neu Israel ac maent yn pryderu am yr effeithiau posibl gall deillio o gydymffurfiaeth orfodol. Nid pwrpas y cynnig yma yw rhoi pwysau ar fyfyrwyr i gydymffurfio ond yn hytrach i annog y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i gyhoeddi datganiad yn galw am gadoediad.*

#### Nodiadau CCB

1. Ar hyn o bryd, nid yw Prifysgol Caerdydd nag Undeb y Myfyrwyr wedi cyhoeddi datganiad yn galw am gadoediad ym Mhalesteina.
2. Mae'r trais presennol rhwng Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palesteina wedi hawlio bywydau dros 10,000 o bobl ddiuog, gyda bron i hanner ohonynt yn blant.
3. Mae pobl Palesteina yn Gaza a'r Llan Orllewinol wedi bod yn byw o dan feddiannaeth anghyfreithlon a blocâd annynol wedi'i osod gan wladwriaeth Israel. Mae'r blocâd ar Gaza yn fath o gosb dorfol ac mae'n cael effaith ddinistriol ar bobl Palesteina.
4. Trwy ymchwil trylwyr a helaeth gwnaeth Amnesty International gyhoeddi adroddiad 280-tudalen sy'n cyflwyno tystiolaeth ddamniol o system o apartheid a osodwyd gan Israel ar bobl Palesteina. Mae'r adroddiad yn datgan:

*"Mae Israel wedi sefydlu a chynnal cyfundrefn sefydliadol o ormes a goruchafiaeth o boblogaeth Palesteina er budd Israeliaid Iddewig – system o apartheid – lle bynnag y mae wedi rheoli bywydau pobl Palesteina ers 1948. Mae Amnesty International yn dod i'r casgliad bod Gwladwriaeth Israel yn ystyried ac yn trin pobl Palesteina fel grŵp hiliol nad yw'n Iddewig israddol. Mae'r gwahanu yn cael ei weithredu mewn modd systematig a sefydliadol iawn, trwy gyfreithiau, polisïau ac arferion, sydd oll wedi'u bwriadu i atal pobl*



*Palesteina rhag hawlio a mwynhau hawliau cyfartal i Israeliaid Iddewig o fewn tiriogaeth Israel ac o fewn [Tiriogaethau Meddianedig Palesteina], ac felly bwriedir gormesu a dominyddu pobl Palesteina.” (p.33) [1]*

5. Mae'r Cenhedloedd Unedig (UN) wedi mynd mor bell â disgrifio'r trais a gyflawnwyd yn erbyn pobl Palesteina yn “carthu ethnig” [2]. Mae hyn wedi'i gefnogi gan dystiolaeth a adroddwyd gan Amnesty International o ymosodiadau Israel yn dinistrio teuluoedd cyfan yn Gaza [3].
6. Yn ôl Swyddfa Cydlynu Materion Dyngarol y Cenhedloedd Unedig, rhwng Ionawr 1, 2008 a Thachwedd 6, 2023 bu farw 6,541 o bobl o Balesteina a 6,331 o bobl o Israel, gyda 155,712 o bobl o Balesteina a 6,331 o bobl o Israel ychwanegol wedi'u hanafu o ganlyniad i feddiannaeth Israel o Balesteina. Tra bod y gwrthdaro yma wedi bod yn digwydd ers Mai 14, 1948, pan sefydlwyd Gwladwriaeth Israel, gan ddechrau'r Rhyfel Arabaidd-Israelaidd cyntaf, mae'r data a ddarparwyd yn cynrychioli'r ystadegau diweddaraf yn dilyn ymosodiad Israel ar Lain Gaza yn 2008. [4]
7. Cadoediad yw'r unig ffordd i gyrraedd heddwch ac i roi diwedd ar y marwolaethau cynyddol a'r tywallt gwaed yn Israel a Thiriogaethau Meddianedig Palesteina.
8. Mae pobl Gaza wedi cael eu heffeithio'n enwedig o drom gan y gwrthdaro, gyda'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod tua 60% o'r boblogaeth nawr yn ddibynnol ar gymorth bwyd. [5]
9. Mae penderfyniad Israel i fomio ysbytai a gweryslyoedd ffoaduriaid yn Gaza, yn hytrach na mynd i mewn i'r ardaloedd yma i gael gwared ar milwriaethwyr Hamas, wedi arwain at farwolaethau miloedd o sifiliaid diniwed heb dystiolaeth glir o bresenoldeb Hamas yn y cyffiniau [6][7]. Mae'r dull yma yn anamddiffynadwy, gan fod penderfyniad Israel i dorri llinellau cyfathrebu i Gaza wedi atal llawer o drigolion rhag derbyn rhybuddion gwacáu cyn cyrchoedd awyr Israel. Yn ogystal, barnwyd bod gorchmynion gwacáu Israel yn annigonol [8].
  - O dan gyfraith ryngwladol rhaid darparu'r modd o oroesi i rheiny sy'n gadael ardal gwrthdaro. Mae gweithredoedd Israel, gan gynnwys atal darpariaeth cyflenwadau hanfodol megis bwyd, diod a chymorth meddygol yn torri ar y rhwymedigaeth yma. [8].
10. Mae penderfyniad Hamas i gymryd 200-250 gwystl fel tacteg negodi hefyd yn groes i gyfraith ryngwladol [9]. Ond, o ganlyniad i gyrchoedd awyr Israel mae rhai o'r gwystlon yma wedi colli eu bywydau [10].
  - Mae bwriad datganedig Israel i achub y gwystlon tra'n cynnal cyrchoedd awyr gyda'r nod o ddileu milwriaethwyr Hamas yn codi cwestiynau am gydlynid ei strategaeth. Os yw Hamas yn cadw gwystlon pam ddim dyfeisio ymgyrch filwrol wedi'i thargedu i sicrhau eu rhyddid, megis dwyn cyrch ar ganolfannau Hamas posibl, gan gynnwys ysbytai a gweryslyoedd ffoaduriaid? Mae'n debygol y byddai'r dull yma yn arwain at lai o farwolaethau ymysg sifiliaid o'i gymharu â'r cyrchoedd awyr eang.



- Mae gweithredodd Israel yn Gaza wedi achosi dioddefaint a cholled bywyd enfawr ymysg sifiliaid diniwed ar y ddau ochr. Mae'r penderfyniad i fomio ysbysu a gwerysulloedd ffoaduriaid ynghyd â'r mesurau gwacáu annigonol ac amhariad ar gyflenwadau hanfodol, yn codi pryderon difrifol am gydymffurfiaid Israel â chyfraith ryngwladol a'i ymroddiad i ddiogelu bywyd sifiliaid.

11. Mae defnydd byddin Israel o rym anghymesur yn erbyn sifiliaid Palesteina yn groes i gyfraith ryngwladol. Mae dinistr Israel o Balesteina o'i gymharu â dinistr Hamas o Israel yn wahanol iawn. [11] Mae Israel hefyd yn defnyddio grym yn erbyn dinasyddion ei hun sy'n cefnogi Palesteina [12].

12. Gall rhagor o wybodaeth gefndirol cael ei ddarganfod yn Atodiad A: [https://cf-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/dinhhc\\_cardiff\\_ac\\_uk/Edpz6GbNrtJLmYLYfnL2TPABnLZ82pd\\_p8s7COFB8X014Q?e=twjZT](https://cf-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/dinhhc_cardiff_ac_uk/Edpz6GbNrtJLmYLYfnL2TPABnLZ82pd_p8s7COFB8X014Q?e=twjZT)

### Cyfeiriadau:

- [1] <https://www.amnesty.org/en/documents/mde15/5141/2022/en/>
- [2] <https://www.ohchr.org/en/press-releases/2023/10/un-expert-warns-new-instance-mass-ethnic-cleansing-palestinians-calls>
- [3] <https://www.amnesty.org/en/latest/news/2023/10/damning-evidence-of-war-crimes-as-israeli-attacks-wipe-out-entire-families-in-gaza/>
- [4] <https://www.ochaopt.org/data/casualties>
- [5] <https://www.unrwa.org/where-we-work/gaza-strip#>
- [6] <https://www.aljazeera.com/gallery/2023/11/7/israel-continues-to-attack-hospitals-in-gaza-city-killing-at-least-eight>
- [7] <https://www.nytimes.com/2023/10/31/world/middleeast/israel-airstrike-gaza-jabaliya.html>
- [8] <https://newsroom.unsw.edu.au/news/general/%E2%80%98gaza-being-strangled%E2%80%99-why-israel%E2%80%99s-evacuation-order-violates-international-law>
- [9] <https://www.aljazeera.com/news/2023/11/3/what-do-we-know-about-the-israeli-captives-held-by-hamas>
- [10] <https://www.reuters.com/world/middle-east/what-do-we-know-about-hamas-hostages-2023-10-19/>
- [11] <https://x.com/talhaahmad967/status/1721299973570977913?s=20>
- [12] <https://www.newarab.com/news/israeli-police-attack-anti-zionist-jews-amid-gaza-war>

### Cred y CCB

1. Mae cadoediad yn hanfodol er mwyn cymryd y cam cyntaf tuag at heddwch parhaol yn yr ardal.
2. Mae gan Brifysgol Caerdydd cyfrifoldeb moesol i siarad yn erbyn anghyfiawnder a gormes.
3. Mae gan Brifysgol Caerdydd dyletswydd i'w myfyrwyr o Balesteina ac Israel sydd wedi cael eu heffeithio gan y trais parhaus yn eu mamwlad.
4. Wrth alw am gadoediad gall Brifysgol Caerdydd danfon neges gref o gefnogaeth am ddatrysiad heddychlun yn yr ardal, tra hefyd yn ailddatgan ei ymrwymiad i gydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.
5. Nid yw condemnio Hamas neu gondemnio Israel yn ddigonol, rhaid beirniadu'r ddau fel sy'n



briodol.

6. Nid yw Hamas yn cynrychioli holl bobl Palesteina nac Islam. Mae cefnogi Palesteina a chefnogi Hamas yn ddau safbwynt gwahanol. Yn yr un modd, nid yw Israel a'i lluoedd arfog yn cynrychioli holl bobl Israel nac Iddewiaeth. Nid yw gwrthsemitiaeth gyfwerth â gwrth-Seioniaeth.
  - Mae yna sifiliaid diniwed ar y ddau ochr, mae pawb yn haeddu byw mewn heddwch a diogelwch.
  - Mae trais yn erbyn sifiliaid ar y ddwy ochr yn adlewyrchu credoau'r partion ac mae'n tanlinellu'r diffyg parch cyffredinol at sifiliaid.

## Penderfyna'r CCB

1. UM Caerdydd i alw'n gyhoeddus am gadoediad ar unwaith, tra hefyd yn lobio Prifysgol Caerdydd i wneud y galwad yma.
2. UM Caerdydd i alw am gymorth materol i fyfyrwyr o Balesteina ac Israel, a myfyrwyr Iddewig a Mwslimaidd, ac unrhyw un arall a effeithir yn ystod yr adeg yma ym Mhrifysgol Caerdydd, ynghyd â hapddalwyr eraill yng Nghymru.
3. UM Caerdydd i drefnu, cefnogi a churadu digwyddiadau addysgol ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth am y gwrthdaro ymysg myfyrwyr. Mae pynciau pwysig yn cynnwys:
  - Nid yw Israel yn cynrychioli Iddewiaeth, a'i fod yn wrthsemitig i dybio bod unrhyw unigolyn Iddewig yn deymgar i Israel, yn hytrach na'i fod yn wrthsemitig i beidio cefnogi Israel.
  - Y gwahaniaeth rhwng Israel, Iddewiaeth a Seioniaeth, a'r gwahaniaeth rhwng Hamas, Palesteina ac Islam.
  - Nid yw pob unigolyn Mwslimaidd neu Arabaidd yn cefnogi Hamas; maent yn sefyll mewn undod gyda phobl Palesteina. Mae cefnogi Palesteina ddim o reidrwydd yn awgrymu eu bod yn cefnogi Hamas; mae'n golygu ymgyrchu dros ddiwedd i feddiannaeth Israel o Balesteina.
  - Cynnydd mewn troseddau casineb hiliol, islamoffobig a gwrthsemitig o ganlyniad i gredoau anghywir bod ymagwedd o blaid Palesteina gyfwerth â bod o blaid Hamas.
  - Sut i adnabod celwyddau a phropaganda gan wladwriaeth Israel a Lluoedd Amddiffyn Israel e.e. cyfiawnhad Beiblaidd am feddiant Palesteina, maint y difrod a lleoliad canolfannau Hamas ayyb.



# Atodiad A

## Cefndir pellach ar feddiannaeth Israel o Balesteina ers 1948

Mae'r atodiad yma'n amlinellu digwyddiadau hanesyddol bwysig gwnaeth arwain at y trais parhaus rhwng Israel a thiriogaethau meddianedig Palesteina. Ers 1948 mae Israel wedi meddiannu tua 80% o'r tir a oedd yn wreiddiol wedi'i ddynodi ar gyfer gwladwriaeth Palesteina.<sup>2</sup>

Digwyddiad pwysig gwnaeth nodi dechrau'r feddiannaeth barhaus yma oedd 14eg Mai 1948, pan wnaeth lluoedd arfog Seionaidd datgan sefydlu gwladwriaeth Israel ar beth oedd Mandad Palesteina Prydain yn flaenorol. Mae'r digwyddiad yma'n cael ei adnabod fel y Nakba, sy'n cyfieithu i "drychineb". Yn ystod y Nakba gwnaeth lluoedd arfog Seionaidd gorfodi o leiaf 750,000 o bobl Palesteina allan o'u cartrefu a'u tir gan gipio 78% o Balesteina hanesyddol.<sup>3</sup>

Gwnaeth trais parhau yn 1967, pan wnaeth Israel gymryd gweddiill tiriogaethau Palesteina, y Llan Orllewinol, Dwyrain Jerwsalem a Llain Gaza, yn ystod yr hyn a elwir yn Naska (sy'n golygu trechu)<sup>4</sup>. Mae ehangiad cyflym Israel ar Balesteina hanesyddol wedi parhau ers hynny.<sup>5</sup>

Mae'r feddiannaeth wedi cael effaith dinistriol ar bobl Palesteina.<sup>6</sup> Mae wedi cyfyngu ar eu rhyddid i symud, mynediad i adnoddau a datblygiad economaidd.<sup>7</sup> Mae hefyd wedi arwain at gam-drin hawliau dynol eang, gan gynnwys llofruddiaethau rhagfarnllyd, artaith a charcharu mympwyol.

Mae'r gymuned ryngwladol wedi condemnio meddiannaeth Israel dro ar ôl tro ac wedi galw am ddod â'r feddiannaeth i ben.<sup>8</sup> Ond, mae Israel wedi gwrthod cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Dadansoddiad manylach o'r tir mae Israel wedi'i meddiannu o Balesteina ers 1967:

- Llan Orllewinol: Mae Israel wedi meddiannu dros 60% o'r Llan Orllewinol, gan gynnwys dinasoedd a threfi allweddol.<sup>9</sup> Mae'r Llan Orllewinol yn gartref i dros 2.5 miliwn o bobl o Balesteina.
- Dwyrain Jerwsalem: Mae Israel wedi atodi Dwyrain Jerwsalem, a oedd yn wreiddiol yn rhan o'r Llan Orllewinol.<sup>10</sup> Mae Dwyrain Jerwsalem yn gartref i dros 300,000 o bobl o Balesteina.
- Llain Gaza Strip: Mae Israel wedi meddiannu ar Llain Gaza ers 1967, ac mae wedi gosod blocâd ar y diriogaeth ers 2007. Mae Llain Gaza yn gartref i 2 miliwn o bobl o Balesteina.<sup>11</sup>

<sup>2</sup> <https://www.aljazeera.com/features/2018/6/4/the-naksa-how-israel-occupied-the-whole-of-palestine-in-1967>

<sup>3</sup> <https://www.aljazeera.com/news/2022/5/15/nakba-mapping-palestinian-villages-destroyed-by-israel-in-1948>

<sup>4</sup> <https://www.aljazeera.com/features/2018/6/4/the-naksa-how-israel-occupied-the-whole-of-palestine-in-1967>

<sup>5</sup> <https://www.un.org/unispal/history/>

<sup>6</sup> <https://www.amnesty.org/en/latest/campaigns/2017/06/israel-occupation-50-years-of-dispossession/>

<sup>7</sup> [https://unctad.org/system/files/official-document/gdsapp2022d1\\_en.pdf](https://unctad.org/system/files/official-document/gdsapp2022d1_en.pdf)

<sup>8</sup> <https://www.ohchr.org/en/press-releases/2023/10/un-expert-warns-new-instance-mass-ethnic-cleansing-palestinians-calls>

<sup>9</sup> <https://www.aljazeera.com/news/2021/5/18/mapping-israeli-occupation-gaza-palestine>

<sup>10</sup> <https://www.amnesty.org/en/latest/news/2020/07/israelopt-10-things-you-need-to-know-about-annexation/>

<sup>11</sup> <https://www.npr.org/2023/10/10/1204873146/what-is-gaza-strip>




- Mae nifer fawr o bobl Palesteina yn yr ardaloedd yma yn ffoaduriaid Palesteinaidd.

ISRAEL/PALESTINE

## What is the Nakba?

Every year, on

**May 15** Palestinians around the world mark the Nakba, or **catastrophe**, referring to the ethnic cleansing of Palestine in 1948.



Ffigwr 1: Llinell amser meddiannaeth Palesteina. Ffynhonnell: AlJazeera.

Mae meddiannaeth Israel o dir Palesteina yn rhwystr mawr i heddwch yn yr ardal.<sup>12</sup> Rhaid i'r gymuned ryngwladol parhau i roi pwysau ar Israel i ddod â diwedd i'r feddiannaeth ac adfer hawliau Palesteina.<sup>13</sup>

*Cafodd yr Atodiad yma ei guradu gan Penny Dinh a Bethany Thomas.*

<sup>12</sup> <https://press.un.org/en/2023/sc15368.doc.htm>

<sup>13</sup> <https://press.un.org/en/2023/sc15451.doc.htm>





## CYNNIG PEDWAR

### YR ARGYFWNG HINSAWDD: SYSTEM FWYD CYNALIADWY SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH AR GYFER PRIFYSGOL CAERDYDD

Cynigydd: *Olivia Herries*

#### Nodiadau CCB

1. Rydym yng nghanol argyfwng hinsawdd ac ecolegol ac mae egwyddorion cyhoeddus Prifysgol Caerdydd yn datgan yn glir ei hymroddiad i fynd i'r afael â hyn: - "Mae Prifysgol Caerdydd wedi'i hymroi i arweinyddiaeth mewn cynaliadwyedd a gwella ein perfformiad amgylcheddol [sy'n cynnwys] ein nod i gyrraedd carbon net sero erbyn 2030." (1) – Datganodd Prifysgol Caerdydd argyfwng hinsawdd yn Nhachwedd 2019. (2) – Bydd arlwyfaeth [Prifysgol Caerdydd] yn weithredol wrth gefnogi prosiectau ymchwil, mentrau'r Brifysgol a myfyrwyr i wella dealltwriaeth, cydweithio a gweithredu ar fwyd cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon. Cefnogi gweithgareddau dan arweiniad staff a myfyrwyr sy'n gwella diwylliant bwyd cadarnhaol yn y Brifysgol. Cefnogi ymchwil ac addysg am systemau bwyd cynaliadwy a defnyddio ymchwil i wella arferion arlwyf. (3) – Targedau monitro [Arlwyf Prifysgol Caerdydd]: I leihau allyriadau carbon blwyddyn ar ôl blwyddyn a chynyddu'r gyfran o brydau bwyd o blanhigion blwyddyn ar ôl blwyddyn. (3)
2. Pan ofynnwyd i'r Is-ganghellor presennol, yr Athro Wendy Lamer, a fyddai'r ymgyrch 'Plant-Based Universities' yn rhywbeth y gallai cefnogi, dywedodd: "Mae'n bendant yn rhywbeth y dylem ei gael ar y bwrdd trafod. Mae newid hinsawdd yn real. Rhaid i ni fynd i'r afael â hynny mewn ffyrdd bydd yn cael effaith trwy'r Brifysgol gyfan, nid dim ond beth rydyn ni'n ei fwya, ond beth rydyn ni'n ei wneud a ble rydyn ni'n ei wneud." (4)
3. Amcangyfrifir bod allyriadau nwyon o'r sector anifeiliaid amaethyddol yn cyfrif am 14.5% o'r cyfanswm byd-eang, mwy nag allyriadau uniongyrchol o'r sector drafndiaeth. (5)
4. Bydd angen cymryd camau drastig i dynnu carbon deuocsid (TCD) o'r atmosffer er mwyn cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C yn uwch na thymereddau cyn-ddiwydiannol. Yr opsiwn TCD hawsaf i'w ddefnyddio ar raddfa fawr yn y DU yw adferiad coedwigoedd brodorol. (6)
5. Mae ymchwil yn awgrymu y byddai defnydd tir byd-eang ar gyfer amaethyddiaeth yn disgyn 75% os fyddai pawb yn symud at ddietau planhigion. (7)
6. Mae cynnyrch anifeiliaid yn hynod aneffeithlon gan eu bod yn cyfrif am ond 18% o galoriau byd-eang, ond maent yn defnyddio 83% o dir fferm fyd-eang. (8)
7. Yn ôl gwyddonwyr Rhydychen a weithiodd ar y dadansoddiad amgylcheddol mwyaf cynhwysfawr am ffermio, osgoi cig a chynnyrch llaeth yw'r 'ffordd fwyaf o leihau ein heffaith ar y byd'. (9)
8. Mae bwyd o blanhigion yn hygyrch i fyfyrwyr ac mae'n gynhwysol i bob diet, gan ei fod



bron bob tro yn halal, kosher, heb lactos ac yn llysieuol. Byddai gan fyfyrwyr digonedd o ddewis wrth fwyta ar gampws.

9. Mae dietau planhigion yn iach ac yn faethol ddigonol ar gyfer unigolion ym mhob cyfnod o fywyd. Efallai gall dietau planhigion a bwyd o blanhigion darparu buddion iechyd wrth atal a thrin clefydau penodol (10). Ar y llaw arall, mae yna dystiolaeth ddigonol sy'n dangos fod cynnyrch anifeiliaid penodol, megis cig coch, yn achosi clefydau megis cancer. (11)
10. Mae myfyrwyr yn cael trafferth gyda phrisiau bwyd cynyddol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Yn ôl astudiaeth ymchwil gan Ysgol Martin Rhydychen, mewn gwledydd incwm uchel, dietau figan oedd y mwyaf fforddiadwy a gwnaethant leihau costau bwyd hyd at un trydydd. (12) – Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd wedi rhedeg ymgyrch 'Bwydo Eich Fflat' o'r blaen, lle cafodd hanfodion coginio o blanhigion, gan gynnwys pasta, lentils, reis a thomatos mewn tun eu rhoi i fyfyrwyr am ddim. (13) – Dylai Undeb Myfyrwyr Caerdydd felly fod yn ymwybodol o'r buddion economaidd i fwyd ac arlwyfaeth planhigion.
11. Mae 'Plant-Based Universities' yn ymgyrch dan arweiniad myfyrwyr gyda dros 80 grŵp gweithredol ar draws sefydliadau addysg uwch yn y DU ac yn rhyngwladol. Hyd yma mae ymgyrchwyr 'Plant-Based Universities' wedi llwyddo ennill saith pleidlais nodedig am drawsnewidiadau llawn i fwyd planhigion, gan gynnwys ym mhrifysgolion Caergrawnt, Stirling a Birmingham. (14)
12. Ym mis Medi 2023, gwnaeth dros 900 o academyddion – gan gynnwys 13 o Brifysgol Caerdydd – arwyddo llythyr agored yn galw ar brifysgolion Prydeinig i ymrwymo'n llawn i arlwygo planhigion er mwyn brwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. (15)

#### Cyfeiriadau:

1. <https://www.cardiff.ac.uk/cy/documents/2501699-environmental-sustainability-strategy-recast-2021>
2. <https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/1730638-cardiff-university-declares-climate-emergency>
3. [https://www.cardiff.ac.uk/data/assets/pdf\\_file/0016/203218/Sustainable-Food-Policy-2021-2023-2.pdf](https://www.cardiff.ac.uk/data/assets/pdf_file/0016/203218/Sustainable-Food-Policy-2021-2023-2.pdf)
4. <https://cardiff.cloud.panopto.eu/Panopto/Pages/Viewer.aspx?id=6c941fc5-7fd1-41cc-ac58-b08100e18f0a>
5. <https://www.fao.org/news/story/en/item/197623/icode/>
6. <https://animal.law.harvard.edu/wp-content/uploads/Eating-Away-at-Climate-Change-with-Negative-Emissions%E2%80%93Harwatt-Hayek.pdf>
7. <https://ourworldindata.org/land-use-diets#:~:text=Research%20suggests%20that%20if%20everyone,for%20land%20to%20grow%20crops.>
8. [https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:b0b53649-5e93-4415-bf07-6b0b1227172f/download\\_file?file\\_format=application%2Fpdf&safe\\_filename=Poore\\_and\\_Nemecek\\_2018\\_Reducing\\_foods\\_environment\\_impacts.pdf&type\\_of\\_work=Journal+article](https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:b0b53649-5e93-4415-bf07-6b0b1227172f/download_file?file_format=application%2Fpdf&safe_filename=Poore_and_Nemecek_2018_Reducing_foods_environment_impacts.pdf&type_of_work=Journal+article)
9. <https://www.theguardian.com/environment/2018/may/31/avoiding-meat-and-dairy-is-single-biggest-way-to-reduce-your-impact-on-earth>
10. <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/19562864/>



11. <https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/cancer-carcinogenicity-of-the-consumption-of-red-meat-and-processed-meat>
12. <https://www.ox.ac.uk/news/2021-11-11-sustainable-eating-cheaper-and-healthier-oxford-study#:~:text=Dr%20Marco%20Springmann,dairy%20reduced%20costs%20by%2014%25>.
13. <https://www.cardiffstudents.com/your-voice/campaigns/costofliving/feedyourflat/#:~:text=Helping%20you%20cook%20with%20less,lentils%20C%20rice%20and%20tinned%20tomatoes>.
14. <https://www.instagram.com/plantbasedunis/>
15. <https://www.theguardian.com/environment/2023/sep/04/hundreds-academics-call-for-meat-free-meals-british-universities>

## Cred y CCB

1. Mae gan Undeb y Myfyrwyr cyfrifoldeb i weithredu polisiau bwyd amgylcheddol wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n gymesur â difrifoldeb yr argyfyngau hinsawdd a natur.
2. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli sefydliad sy'n bwerus ac sydd â'r gallu unigryw i weithredu newid sylweddol. I egluro'n llawn, nid yw'r cynnig hwn yn ymestyn i ddewisiadau dietegol unigol myfyrwyr a staff.
3. Mae gan Undeb y Myfyrwyr cyfrifoldeb i gymryd sylw o Bolisi Bwyd Cynaliadwy y Brifysgol.
4. Dylai Undeb y Myfyrwyr ymdrechu i ddarparu opsiynau bwyd sy'n cynyddu cynwysoldeb i bobl o wahanol gredoau, crefyddau a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol.
5. Dylai Undeb y Myfyrwyr ymdrechu i ddarparu opsiynau bwyd sy'n fforddiadwy ac sy'n werth da am arian, gan felly cefnogi myfyrwyr i reoli eu cyllid yn effeithiol yn ystod yr argyfwng costau byw.

## Penderfyna'r CCB

1. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini 50% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/2025.
2. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini 100% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2026/2027.
3. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at ddileu'r gordal ar laeth planhigion, a newid i laeth planhigion fel yr opsiwn a ragosoded o fewn manau bwyd sy'n berchen i Undeb y Myfyrwyr erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/2025.
4. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at wneud opsiynau bwyd planhigion a weinir mewn manau bwyd sy'n berchen i Undeb y Myfyrwyr (gan gynnwys bargeinion prydau bwyd) yr un pris a'r opsiwn di-planhigion cyfwerth erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/2025.
5. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn



- cynnig arlwyo 50% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academiaidd 2024/25.
6. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyo 100% bwyd planhigion erbyn dechrau'r flwyddyn academiaidd 2026/27.
  7. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau bod pob busnes allanol wedi'i leoli yn Undeb y Myfyrwyr yn cael eu newid am lefydd bwyd planhigion unwaith mae eu trwyddedau'n dod i ben neu i'r busnesau allanol ddilyn y newidiadau a amlinellwyd ym mhenderfyniadau 1-4.
  8. I Undeb y Myfyrwyr rhoi cymeradwyaeth gyhoeddus i'r ymgyrch 'Plant-Based Universities'.
  9. I fandadu Swyddog Sabothol i ddechrau a goruchwyllo'r newid wedi'i amlinellu ym mhenderfyniadau 1-7 gyda chynghor a chaniatâd tîm 'Plant-Based Universities' Caerdydd a chefnogaeth y Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol
  10. I Undeb y Myfyrwyr llobio'r Brifysgol i weithredu ail gam yr ymgyrch: symud arlwyfaeth Prifysgol tu allan i Undeb y Myfyrwyr i 100% bwyd planhigion.

**\*NODWCH:**

- *Dylai'r bwydlenni planhigion cael eu cynhyrchu mewn ymgyngoriad â gweithwyr proffesiynol dietegol i sicrhau eu bod yn faethol digonol.*
- *Dylai bwydlenni ystyried unigolion gall fod ag anghenion dietegol neu benodol yn ymwneud â bwyd i sicrhau bwydlen deg, gynhwysol ac ystyriol.*
- *Wrth ddatblygu'r fwydlen, rhaid i opsiynau planhigion cael eu prasio'n fforddiadwy.*



## DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I GYNNIG 4

### DIWYGIAD 1

*Cynigydd: Long Mui*

#### I amnewid

Penderfyniad 1. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini 50% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/2025.

Penderfyniad 2. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini 100% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2026/2027.

Penderfyniad 5. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyio 50% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/25.

Penderfyniad 6. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyio 100% bwyd planhigion erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2026/27.

#### Am

Penderfyniad 1. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini o leiaf 25% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/2025.

Penderfyniad 2. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at gael pob man bwyd sy'n berchen i'r Undeb y Myfyrwyr i weini o leiaf 50% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2026/2027.

Penderfyniad 5. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyio o leiaf 25% bwyd planhigion erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2024/25.

Penderfyniad 6. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau fod pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyio o leiaf 50% bwyd planhigion erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd 2026/27.

#### A Thynnu

Penderfyniad 7. I Undeb y Myfyrwyr weithio tuag at sicrhau bod pob busnes allanol wedi'i leoli yn Undeb y Myfyrwyr yn cael eu newid am lefydd bwyd planhigion unwaith mae eu trwyddedau'n dod i ben neu i'r busnesau allanol ddilyn y newidiadau a amlinellwyd ym mhenderfyniadau 1-4.

Penderfyniad 9. I fandadu Swyddog Sabothol i ddechrau a goruchwylio'r newid wedi'i amlinellu ym mhenderfyniadau 1-7 gyda chynghor a chaniatâd tîm 'Plant-Based Universities' Caerdydd a chefnogaeth y Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol

Penderfyniad 10. I Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol i weithredu ail gam yr ymgyrch: symud arlwyio Prifysgol tu allan i Undeb y Myfyrwyr i 100% bwyd planhigion.



## DIWYGIAD 2

Cynigydd: Jack Morewood

### I amnewid pob penderfyniadau gyda

1. I Undeb y Myfyrwyr mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddewis gwybodus, hyrwyddo opsiynau cynaliadwy a chynwysoldeb gwahanol anghenion dietegol a diwylliannau.
2. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio tuag at wneud newidiadau i'w cynigion bwyd a diod am gyfnod arbrofol o un flwyddyn academaidd. Bydd y newidiadau yma'n cynnwys y gweithredoedd ym mhenderfyniadau 3 i 6.
3. Bydd pob man bwyd sy'n berchen i Undeb y Myfyrwyr yn gweini o leiaf 50% bwyd planhigion\* yn ystod y cyfnod arbrofol.
4. Bydd pob digwyddiad Undeb y Myfyrwyr yn cynnig arlwyfaeth 50% bwyd planhigion\* yn ystod y cyfnod arbrofol.
5. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn gweithio tuag at wneud opsiynau bwyd planhigion a weinir mewn mannau bwyd sy'n berchen i Undeb y Myfyrwyr (gan gynnwys bargeinion prydau bwyd) yr un pris a'r opsiwn di-planhigion cyfwerth yn ystod y cyfnod arbrofol.
6. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn diweddarau ei marchnata o fwyd a diod er mwyn hyrwyddo opsiynau planhigion bwyd planhigion\* mwy. Bydd deunyddiau marchnata megis bwydlenni yn cael eu hadolygu i gynnwys amrywiaeth o ddangosyddion cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac ecolegol sy'n galluogi myfyrwyr gwneud dewisiadau mwy gwybodus.
7. Er mwyn osgoi amheuaeth, dylai'r cyfnod arbrofol digwydd ym mlwyddyn academaidd 2024/2025.
8. Ar ddiwedd y cyfnod arbrofol bydd Undeb y Myfyrwyr yn adrodd ar effaith y newidiadau yma, gan gynnwys data ar y galw am fwyd planhigion, bodlonrwydd myfyrwyr ac unrhyw wersi a ddysgwyd o'r arbrawf. Bydd canfyddiadau'n cael eu defnyddio i adolygu'r gyfran o arlwyfaeth bwyd planhigion sy'n cael ei gynnig ym mlynnyddoedd academaidd y dyfodol a newidiadau pellach i strategaethau marchnata os oes angen. Bydd y canfyddiadau hefyd yn cael eu defnyddio i lobio'r brifysgol a busnesau allanol wedi'u lleoli yn Undeb y Myfyrwyr i gynyddu cynigion bwyd planhigion.
9. I sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn gynted â phosib, wedi'i gadeirio gan Swyddog Sabothol. Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yma yn goruchwyllo gweithredu tuag at y penderfyniadau. Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cymryd cyngor gan dîm 'Plant-Based Universities' Caerdydd a'r Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol.

#### \*NODWCH:

- Dylai'r bwydlenni planhigion cael eu cynhyrchu mewn ymgynghoriad â gweithwyr proffesiynol dietegol i sicrhau eu bod yn faethol digonol.
- Dylai bwydlenni ystyried unigolion gall fod ag anghenion dietegol neu benodol yn ymwneud â bwyd i sicrhau bwydlen deg, gynhwysol ac ystyriol.
- Wrth ddatblygu'r fwydlen, rhaid i opsiynau planhigion cael eu priso'n fforddiadwy.



## CYNNIG PUMP

### EIRIOLI AM DDIDYMU FFI OEDD DYSGU

*Cynigydd: Cadewyn Skelley*

#### Nodiadau CCB

1. Cafodd ffioedd dysgu eu diddymu'n wreiddiol ym 1976, cyn cael eu hailsefydlu gan lywodraeth Tony Blair, a chododd y ffioedd i'w lefelau presennol o dan lywodraeth clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010;
2. Gall ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig yng Nghymru fod hyd at £9000 y flwyddyn;
3. Gall ffioedd dysgu i fyfyrwyr rhyngwladol fod mwy na £20,000+ am bob semester, gyda'r posibilrwydd y gall cynyddu yn yr ail flwyddyn a'r blynyddoedd i ddilyn fel y caniateir gan y gyfraith a pholisi Llywodraeth Cymru;
4. Mae yna ddau gynllun ad-dalu i fyfyrwyr Saesneg – Cynllun 1, 2 a 5;
5. Mae yna ddau gynllun ad-dalu i fyfyrwyr Cymraeg – Cynllun 1 a 2 (Yr un fath â chynllun 1 a 2 ar gyfer myfyrwyr Saesneg);
  - i. Cyn-fyfyrwyr a ddechreuodd cyn 1af Medi 2012 = Cynllun 1;
  - ii. Myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr a ddechreuodd rhwng Medi 2012 a 31ain Gorffennaf 2023 = Cynllun 2;
  - iii. Myfyrwyr Saesneg sy'n dechrau ar neu ar ôl 1af Awst 2023 = Cynllun 5

#### Cred y CCB

1. Mae ffioedd dysgu yn system atchweliadol sy'n effeithio'n negyddol ar fynediad i addysg uwch, tra hefyd yn cosbi'r rheiny sy'n ceisio gwella eu safon bwy (myfyrwyr);
2. Mae'n arfer rheibus o ran myfyrwyr rhyngwladol;
3. Mae Cynllun 5 yn system gwbl atchweliadol i fyfyrwyr Saesneg, sy'n gofyn iddynt dalu'n ôl am gyfnod hirach a gyda throthwy ad-dalu is, sy'n bennaf yn effeithio ar deuluoedd incwm canol ac is;
4. Tra nad oes gan Undeb y Myfyrwyr y gallu i newid y system bresennol, mae'n gallu lleisio a hyrwyddo gweithrediadau ymgyrchu sy'n herio'r system bresennol;

#### Penderfyna'r CCB

1. I gefnogi dileu ffioedd dysgu a maddeuant dyled myfyrwyr i bob myfyriwr rhyngwladol a chenedlaethol;
2. I gefnogi a hyrwyddo gweithrediadau ymgyrchu ar y mater o ddileu ffioedd dysgu a maddau dyled myfyrwyr, tra'n annog cymdeithasau Prifysgol Caerdydd i wneud yr un peth



## EITEM NAW

Ar ddydd Llun 11eg Rhagfyr 2023 bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd pob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrch am 2023/24 ar agor am enwebiadau yn yr etholiadau yma. Os hoffech ragor o wybodaeth cadwch lygad ar wefan Undeb y Myfyrwyr ([www.cardiffstudents.com](http://www.cardiffstudents.com)) am Hysbysiad Etholiad.

## DIWEDD Y PAPURAU

